**CYNGOR BRO MACHNO 11 / 9 / 14**

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Bro Machno a gynhaliwyd ar 11eg o Fedi 2014 yn Festri Capel Salem. Yn bresennol roedd Dafydd Hughes, Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eryl Owain, Cyril Lewis, Colin Jones, Geraint Thomas ac Eifion Davies. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Aled Roberts.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

**Toiledau** – derbyniwyd ymateb o'r diwedd gan y Cyngor Sir ond roedd yn ymateb dryslyd o ran beth oedd wedi digwydd yn y gorffennol ac amcangyfrifon am y gwariant angenrheidiol i ddod â'r adeilad i safon derbyniol. Penderfynwyd cwyno'n gryf am y diffyg gofal a roddwyd i'r toiledau ers blynyddoedd lawer ac i ofyn am gyfarfod pellach i drafod y ffordd ymlaen.

**Ffyrdd** – llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn nodi eu bod yn symud ymlaen efo gosod gwaharddiadau parcio ger Llys Ifor ac ar y *Green*.

Trafodwyd difrod a achoswyd gan gerbydau wrth Hendre House a phenderfynwyd cysylltu ymhellach â'r cyngor sir.

Lluniwyd rhestr o faterion eraill sydd angen sylw sef clirio gwterydd mewn amryw fannau, arwydd 'ffordd yn culhau' cyn cyrraedd Plas Derwen, ymestyn yr ardal 30MyA a chyflwr ffordd Elusendy.

**Mynwent Arwelfa** – penderfynwyd bwrw ymlaen i dorri a thacluso coed ym Mynwent Arwelfa ar bris o £300.

Penderfynwyd bod angen arwydd wrth giât y fynwent yn nodi y dylid clirio o'r safle unrhyw wair sy'n cael ei dorri.

**Tafarn y Machno** – gan fod diddordeb o hyd gan Fenter Bro Machno yn yr adeilad, penderfynwyd cael prisiad manwl mewnol i asesuei werth.

**Meddygfa Betws-y-coed** – derbyniwyd nifer o gwynion am drafferthion sicrhau apwyntiad a phenderfynwyd cysylltu i ofyn am gyfarfod i drafod hyn.

**Baw cŵn** – nodwyd bod problemau o ran baw cŵn yn parhau, yng nghyffiniau'r cae chwarae ac ar lwybr y Waen yn arbennig. Penderfynwyd cysylltu â'r cyngor sir.

**Archwiliad Ariannol** – mantolen 2013 wedi ei chymeradwyo gan yr Archwilwyr Allanol ac awdurdodwyd y cadeirydd i'w llofnodi.